



## *Asiantau Cymunedol*

*Helpu pobl hŷn yn Wrexham  
i gael ansawdd bywyd gwell*

Mae **Asiantau Cymunedol** yn ymateb arloesol i'r angen cydnabyddedig nad yw nifer o'r unigolion sy'n byw yn ein cymunedau'n gallu cysylltu â'r gwasanaethau allweddol sy'n cynorthwyo a chynnal lles a chefnogi ansawdd eu bywyd.



# Asiantau Cymunedol

**Mae Asiantau Cymunedol yn gweithio gydag unigolion dros 60 oed yn Wrecsam, gan ddarparu mynediad hawdd at amrywiaeth o wybodaeth fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u hanghenion presennol ac yn y dyfodol.**

Y nod yw cynorthwyo pobl hŷn i deimlo'n fwy annibynnol, diogel, gyda gofal amdanynt ac i gael ansawdd bywyd gwell.

Bydd Asiantau Cymunedol yn cefnogi pobl sy'n byw yn ardaloedd Wrecsam, gan bontio'r bwlch rhwng y gymuned leol a'r sefydliadau statudol neu wirfoddol ac yn gallu cynnig cymorth neu gefnogaeth.

Mae'r cynllun yn gweithio gan fod yr Asiantau'n byw'n agos at y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt. O ganlyniad, maent yn adnabod y pentrefi a'r pobl yn dda.

Mae'r asiantau'n darparu trosolwg o wasanaethau sydd ar gael yn y sir ac yn cynnig cymorth i gael mynediad iddynt. Maent yn cynorthwyo mewn nifer o ddulliau eraill hefyd – gan ennill ymddiriedaeth y rhai y maent yn eu cynorthwyo a galluogi pobl hŷn i fod yn annibynnol yn hirach.



## *Beth mae'n ei wneud?*

**Ydych chi'n chwilio am wybodaeth a chyngor cyfrinachol yn rhad ac am ddim ynglŷn â'r gwasanaethau lleol?**

**Yn ansicr at bwy i droi?**

**Ydych chi'n byw yn Wrecsam?**

*Cysylltwch ag un o'n Asiantau Cymunedol a gallant eich cynorthwyo gyda'r canlynol:*

- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth wyneb yn wyneb
- Cefnogi pobl hŷn yn bennaf ond unrhyw un arall all elwa hefyd
- Cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus
- Cynnig gwasanaeth cyfeirio a darparu cyswllt uniongyrchol i'r asiantaeth briodol
- Cynorthwyo unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u hanghenion yn y dyfodol
- Canfod unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu yn eu cymunedau
- Cefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd dynodedig yn Wrecsam
- Cael eu recriwtio'n lleol a derbyn hyfforddiant / cefnogaeth barhaus
- Derbyn cefnogaeth eu Cyngor Cymuned Lleol



## Ar gyfer pwy?

Pobl hŷn (dros 60 oed) mewn rhannau o Sir Wrecsam sydd angen cyngor ynglŷn â'r gwasanaethau i'w cynorthwyo i wella ansawdd eu bywyd.

## Faint mae'n ei gostio?

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac **AM DDIM**.

## Sut i gael mynediad neu wneud cais am y gwasanaeth:

Mae gan Asiantau Cymunedol rifau ffôn symudol os ydych yn dymuno cysylltu â hwy yn uniongyrchol, os nad yw'r Asiant ar gael gadewch neges a byddant yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.

**Mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd yng Glyn-Traian – Pontfadog, Dolywern, Llwynmawr, Castle Mill, Bronygarth .**

**Ffôn: 07931 991356**

**ebost: [CommunityAgentGT@glyntraian.org.uk](mailto:CommunityAgentGT@glyntraian.org.uk)**

